# Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 09-06 (p1)

### Dyddiad: 29 Tachwedd 2006
### Amser: 09:00 - 12:00
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd
### Teitl: Adroddiad y Gweinidog

**Diben**

1. Rhoi'r manylion diweddaraf ynghylch amryfal faterion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

**Argymhelliad**

2. Bod aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

**Y Cyd-destun**

3. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 25 Hydref 2006. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf.

**Gweithgareddau Rhyngwladol Prif Weinidog Cymru**

**26 a 27 Hydref 2006 Taith Fasnach Busnes Rhyngwladol Cymru i Latfia**

Yn ystod fy ymweliad ?iga, cefais gwrdd ag Arlywydd Latfia, Mrs Vaira Vike-Freiberga, Gweinidog Tramor Latfia, Dr Artis Pabriks, Gweinidog Economaidd Latfia, Mr Aigars Stokenbergs ac Ysgrifennydd Gwladol Dros dro a Dirprwy Ysgrifennydd Gwladol y Weinyddiaeth Addysg a Gwyddoniaeth. Buom yn trafod cysylltiadau masnachol a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru a Latfia.

**31 Hydref a 1 Tachwedd 2006 Ymweliad y Lt Gadfridog Salva Kiir Mayardit, Prif Is-Arlywydd y Swdan a hefyd Llywydd De'r Swdan.**

Cefais gwrdd ? Lt Gadfridog Salva Kiir Mayardit, Prif Is-Arlywydd y Swdan a hefyd Llywydd De'r Swdan. Diben yr ymweliad oedd rhoi cyfle i'r Lt Gadfridog Mayardit weld sut y mae datganoli yng Nghymru yn gweithio, yn enwedig y berthynas rhwng y Cynulliad a'r Llywodraeth Ganolog; y ddeddfwrfa a'r weithrediaeth; yr economi; a chysylltiadau cymunedol.

## 7 Tachwedd 2006 Ymweliad gan Ei Ardderchogrwydd Yoshiji Nogami, Llysgennad Japan

Cefais gyfarfod ? Ardderchogrwydd Yoshiji Nogami Llysgennad Japan a chynnal derbyniad gydag ef yn y Senedd. Roedd y Llysgennad wedi dod i Gymru er mwyn cwrdd ? phenaethiaid cwmn? o Japan yng Nghymru a phobl flaenllaw eraill. Hwn oedd y tro cyntaf erioed i Lysgennad Japan gynnal derbyniad y tu allan i Lundain. Roedd yn ddigwyddiad hynod lwyddiannus gyda channoedd o westeion pwysig o bob cwr o Gymru yno.

## 7 Tachwedd 2006 Ymweliad y Gwir Anrh. Abdirahman Mohamed Abdillahi, Llefarydd a'r Gwir Anrh. Abdiaziz Mohamed Samale, Prif Is-lefarydd Ty Cynrychiolwyr Somaliland

Cyfarfum ? Gwir Anrh. Abdirahman Mohamed Abdillahi, llefarydd Ty Cynrychiolwyr Somaliland a'r prif Ddirprwy Lefarydd, y Gwir Anrh. Abdiazziz Mohamed Samale. Daethant a threulio diwrnod gyda Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad i feithrin cysylltiadau ac i gael cyngor ar redeg eu Senedd newydd.

## 10 Tachwedd 2006 Ymweliad Ei Ardderchogrwydd Vugsudas Usackas, Llysgennad Gweriniaeth Lithiwania

Cyfarfum ?lysgennad Usackas, sydd newydd ei benodi ac a oedd ar ei ymweliad cyntaf ?hymru. Trefnwyd yr ymweliad gan yr Is-gennad Anrhydeddus er mwyn i'r Llysgennad gael cyfle i gwrdd ag aelodau cymuned y Lithiwaniaid yng Nghymru a phobl flaenllaw eraill.

## 16 ac 17 Tachwedd 2006 Cynhadledd Reg Leg

Croesewais seithfed Gynhadledd Flynyddol Llywyddion Rhanbarthau'r UE ?hwerau Deddfu ar 16 ac 17 Tachwedd yn y Gyfnewidfa Lo, Caerdydd. Rhoddaf adroddiad llafar i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r Gynhadledd maes o law. Mae'r Gynhadledd yn dod ?hrif Weinidogion, Gweinidogion a chynrychiolwyr eraill Rhanbarthau'r UE ynghyd a'r tro hwn, mabwysiadodd ddatganiad fydd yn cael ei gyhoeddi a'i anfon at brif sefydliadau'r UE a'i ddosbarthu ymhlith gwledydd yr UE gyda golwg ar ddylanwadu ar y drafodaeth am faterion cyfansoddiadol a sefydliadol. Rwyf wedi amgau drafft diweddaraf y datganiad (dyddiedig 13 Tachwedd) yn Atodiad D. Caiff y fersiwn derfynol ei dosbarthu ymhlith yr aelodau yn ein cyfarfod ar 29 Tachwedd.

## Materion Eraill

## Cyd-Gyngor y Gweinidogion (Ewrop)

Byddaf yn mynychu cyfarfod o'r Cyd-Gyngor ddydd Llun 27 Tachwedd. Caiff aelodau adroddiad llafar gennyf yng nghyfarfod nesa'r Pwyllgor.

## Ehangu'r UE: Twrci a Gwledydd Gorllewin y Balcanau

Ar 8 Tachwedd, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei strategaeth ar gyfer ehangu ac adroddiadau cynnydd ar bob gwlad sydd wedi gwneud cais ac sydd ar fin gwneud cais. Mae'r strategaeth yn amlinellu agwedd y Comisiwn at ehangu ac yn esbonio'r sialensau sy'n wynebu pob gwlad. Ceir mwy o wybodaeth am hyn yn Atodiad A.

## Is-genhadon Anrhydeddus

Y Swistir - Mae Ruth Thomas newydd ei phenodi'n Is-gennad Anrhydeddus i'r Swistir yng Nghymru. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r Swistir gael cynrychiolaeth swyddogol yng Nghymru. Bwriad Ms Thomas yw agor swyddfa is-gennad yng Nghaerdydd yn y Flwyddyn Newydd.

Brasil - Mae Llysgenhadaeth Brasil newydd benodi'r Dr Lolita Tsanaclis fel ei His-gennad Anrhydeddus yng Nghymru. Mae'r Dr Tsanaclis yn cymryd lle Geoff Mungham a fu farw rai blynyddoedd yn ?

## Camau heb eu cymryd ers cyfarfodydd blaenorol

## Masnachu mewn Bwydydd ? Geneteg wedi'u Haddasu

Cyhoeddodd Sefydliad Masnach y Byd (WHO) ei ddedfryd swyddogol bod yr Undeb Ewropeaidd wedi gweithredu'n anghyfreithlon trwy wahardd mewnforio cnydau GM rhwng 1999 a 2004. Dygwyd yr achos gan UDA, Canada ac Ariannin a honnai fod y moratoriwm yn fesur diffynnaeth.

Roedd y ddedfryd swyddogol, a oedd yn 1000 o dudalennau o hyd, yn debyg iawn yn ei hanfod i'r ddedfryd ragarweiniol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2006.

Mae'r UE wedi cymeradwyo dyrnaid o gynhyrchion GM ers i'r achos gael ei wneud yn 2003. Bydd yn awr yn adolygu dros 30 o geisiadau eraill. Ni edrychodd y WHO a oedd cnydau GM yn ddiogel ac ni ymchwiliodd i drefn reoleiddio'r UE na'i ddull o gymeradwyo cynhyrchion GM.

Roedd yr adroddiad yn feirniadol hefyd o'r chwe aelod-wlad sydd wedi gwahardd cnydau GM sydd wedi'u cymeradwyo gan yr UE.

## Bwlgaria a Rwmania: Mynediad at farchnadoedd llafur y DU

Penderfynodd Llywodraeth y DU y bydd y farchnad lafur yn cael ei hagor yn raddol i ddinasyddion Bwlgaria a Rwmania ar ?'r ddwy wlad ymuno ? Undeb Ewropeaidd ar 1 Ionawr 2007. Bydd angen fisas ar ddinasyddion o Fwlgaria a Rwmania tan 31 Rhagfyr, ond wedi hynny, byddant yn rhydd i deithio'n ddirwystr i bob rhan o'r UE. Ceir mwy o wybodaeth am hyn yn Atodiad B.

## Adroddiad - Fforwm Ewropeaidd Cymru[2] Port Talbot, 20 Hydref 2006

Mae copi o'r Adroddiad yn Atodiad C.

## Newyddion o Ewrop

- Adroddiad y Cenhedloedd Unedig ar ddyfodol Kosovo - Mae'r CU wedi gohirio adroddiad ar statws terfynol Kosovo tan ar ?r etholiadau yn Serbia ar 21 Ionawr. Mae Albaniaid Kosovo, sef y mwyafrif yno, am gael annibyniaeth oddi wrth Serbia, ond mae diplomyddion yn dweud bod y CU am osgoi corddi cenedlaetholwyr eithafol Serbiaidd. Mae Grwp Cyswllt y CU ar Kosovo wedi addo penderfyniad cyn diwedd 2006. Mae Adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd a gyhoeddwyd ar 8 Tachwedd ac y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn fy adroddiad, hefyd yn ymdrin ?osovo.
- Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith - Mae'r newidiadau arfaethedig i reolau'r UE ar Oriau Gwaith wedi'u blocio gan Ffrainc, yr Eidal a Sbaen gan nad oes dyddiad wedi'i gynnig pan fydd yn rhaid i'r DU gydymffurfio ? rheol ar wythnos waith 48 awr. Derbyniodd y rhan fwyaf o 25 gwlad yr UE a gymerodd ran mewn trafodaeth ar oriau gwaith, gyfaddawd a gynigiwyd gan y Ffindir a fyddai wedi caniatau i'r DU barhau i gael ei heithrio ond gyda rhai cyfyngiadau newydd.

**Rhodri Morgan AC**
**Prif Weinidog**

## Adroddiad Prif Weinidog Cymru i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

| Dyddiad | Gweinidog/ Swyddog/Is-adran y Cynulliad | Digwyddiad | Amcanion | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| 26-27 Hydref 2006 | Prif Weinidog | Taith Fasnach Busnes Rhyngwladol Cymru i Latfia | Yn ystod fy ymweliad ?iga, cefais gwrdd ag Arlywydd Latfia, Mrs Vaira Vike-Freiberga, Gweinidog Tramor Latfia, Dr Artis Pabriks, Gweinidog Economaidd Latfia, Mr Aigars Stokenbergs ac Ysgrifennydd Gwladol Dros dro a Dirprwy | Cryfhau'r berthynas rhwng Cymru a Latfia. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ysgrifennydd Gwladol y Weinyddiaeth Addysg a Gwyddoniaeth. Amcan yr ymweliad oedd meithrin cysylltiadau masnachol a chryfhau'r cysylltiadau ehangach o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru a Latfia. | |
| 26-27Hydref | Alun Pugh AC<br><br>Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon | Cyfarfod Gweinidogion y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar Ieithoedd Cynhenid, Lleiafrifol a Llai | Cydweithredu ar lefel y Llywodraeth i ddysgu mwy am brosesau cynllunio ieithyddol. | Cadarnhaodd y Gweinidogion y papurau a oedd wedi'u paratoi gan y grwp sectorol ar:<br><br>? Trosglwyddo Iaith o fewn y Teulu<br>? Addysg i Oedolion<br>? Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu<br><br>Cytunwyd y dylai'r grwp sectorol barhau ? waith yn y meysydd hyn a phenderfynwyd edrych ar ddau faes newydd, sef:<br><br>? Cynllunio ac Ystyriaethau Ieithyddol; ac<br>? Ymchwil, Data ac Arolygon Defnyddio Iaith. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 27 -31<br><br>Hydref<br><br>2006 | Carwyn Jones AC<br><br>Gweinidog yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad<br><br>Norma Barry<br><br>FMDD | Ymweliad ?ubai | Lansio ymgyrch i hyrwyddo cig oen Cymreig yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig ar ?odi'r cyfyngiadau ar fewnforion. | Enynnwyd diddordeb mewn allforio cig oen Cymreig i Dubai. |
| 2-4 Tachwedd 2006 | Jane Davidson AC<br><br>Y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes<br><br>Steve Marshall, Cyfarwyddwr yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau | Trydedd Uwchgynhadledd Ryngwladol a Chynhadledd i-net ar Arweiniad mewn Addysg - Boston | Prif bwnc y gynhadledd oedd Arwain Arloesi Cynaliadwy. Gan fod Cymru wedi bod yn flaenllaw ym maes newid dulliau asesu, gwahoddwyd y Gweinidog i draddodi araith ar y gwaith arloesol sy'n cael ei wneud yng Nghymru a arweiniodd at ddileu profion statudol yng Nghyfnodau Allweddol un a dau yn ysgolion cynradd Cymru, ac ar ddatblygiadau diweddar yn addysg Cymru. Y prif bwrpas oedd rhannu ? hynrychiolwyr eraill o bedwar ban byd oblygiadau diddymu profion statudol er mwyn helpu gwledydd eraill i ddatblygu'u polis? addysg. | Mae'r gwahoddiad i'r Gweinidog i gymryd rhan yn arwydd bod Cymru'n cael ei gweld fel arweinydd ym maes asesu. Bu'r gynhadledd yn gyfle gwerthfawr i gwrdd ?hynrychiolwyr o wledydd gwahanol ac i weithio gyda'i gilydd ar ddatblygu polis? a strategaethau addysg. Roed hefyd yn gyfle i dynhau'r berthynas waith ymhellach ag I-net (International Networking for Educational Transformation) fydd yn llwyfan gwerthfawr i ddangos llwyddiannau Cymru yn y dyfodol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6 Tachwedd 2006 | Andrew Davies AC<br><br>Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau | Cyflwyniad i'r Comisiwn Ewropeaidd ar Brosiect Galileo. | Er mwyn cryfhau sefyllfa Caerdydd fel cartref posibl i Awdurdod Goruchwylio System Llywio Lloerennau Ewrop. | Arweiniodd y Gweinidog gyflwyniad proffesiynol iawn ar ein cais am y GSA. Cafodd ei drefnu gan Lywyddiaeth y Ffindir; mae 11 cais bellach wedi dod i law; byddant wedi gwneud eu cyflwyniadau ar 6 a 7 Tachwedd i esbonio'r agweddau technegol a'r cymorth y byddant yn eu cynnig. Canmolwyd proffesiynoldeb ein cais gan y Llywydd. Y gobaith yw y caiff y penderfyniad ei wneud yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr. |
| 6 Tachwedd 2006 | Andrew Davies AC<br><br>Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau | Cyfarfod gyda Graham Meadows, Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyfarwyddiaeth Gyffredinol REGIO. Ym Mrwsel. | I ddiweddaru Graham Meadows ar hynt gwaith Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno'n Rhaglen Weithredol. | |
| 6 Tachwedd 2006 | Andrew Davies AC<br><br>Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau | Mynd i lansiad Prosiect Amgylcheddol LIFE Prifysgol Bangor yn Senedd Ewrop. | | Lansiodd Prifysgol Bangor arddangosfa yn Senedd Ewrop ar gompostio - rhaglen ymchwil ar adfer tir o dan nawdd rhaglen LIFE yr UE. Roedd y Brifysgol yn gwerthfawrogi presenoldeb y Gweinidog. Cynrychiolwyd y Brifysgol gan yr Is-Ganghellor (yr Athro John Farrer). |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7 Tachwedd 2006 | Prif Weinidog | Ymweliad y Gwir Anrh. Abdirahman Mohamed Abdillahi, Llefarydd a'r Gwir Anrh. Abdiaziz Mohamed Samale, Prif Is-lefarydd Ty Cynrychiolwyr Somaliland | Roedd y Llefarydd a'i Ddirprwy yn ymweld ag Ewrop i ystyried cysylltiadau ac i ofyn am gyngor ar redeg eu Senedd newydd. Treulion nhw'r dydd gyda Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. | Cyfarfod cwrteisi oedd yr ymweliad. |